CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 27ain o Chwefror 2018 yn Fferm Ceffylau Gwedd, Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Llinos Davies

Cynghorwyr: Enid Cole, Lon Davies, Ieuan Davies, Ceirwyn John, Arwel Evans

Cynghorydd Sir:

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Yn absenoldeb y Cyng Robin Phillips fe gymerodd y Cyng. Llinos Davies at y gwaith. Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Sarah-Jane Absalom, Robin Phillips, Cyng. Cris Tomos

Cofnodion 02.01.2018

Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Ieuan Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

99. Sied gyferbyn a Blaengafren Eglwyswrw – Ar ol galwadau ffon I Cyngor Sir Benfro ar sefyllfa y sied mae wedi cael ei ddymchwel er diogelwch.

100. Gwaith yn y Butchers – Pryder oedd gan y Cynghorwyr a aelodau lleol bod gwaith dal yn mynd ymlaen yn y Butchers heb ganiatad. Helen wedi danfon ebost I Cyngor Sir Benfro ac maent yn ymwybodol ynglyn a hyn.

Gohebiaeth

101. Paul Davies Cymorthfeydd Cynghori 2018 – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac mae gwybodaeth yn yr hysbysfwrdd.

102. Cyfanwm yn y banc 25.1.2018 - £3,305.09

103. Cyngor Sir Benfro Cais Cynllunio Mr. R. Evans, Butchers Arms, Eglwyswrw – Newid I'r cynllun gwreithiol - Newid defnydd er mwyn creu un tŷ sengl a newid siap y to ar yr estyniad. – Pryder roedd gan y Cynghorwyr am y sefyllfa yma ac hefyd gyda cymdogion ynglyn ar to. Helen I ysgrifennu llythyr arall ynglyn ar to ac hefyd yr effaith ar y cymdogion.

104. Cyngor Sir Benfro – Llain Eglwyswrw - Cais ar gyfer ailddefnyddio ac I rannu adeiladau masnachol presennol I ddarparu 6 uned fashnachol a llety preswyl. Mae'r cais yma wedi ei gymeradwyo yn amodol

105. Llythyr wrth Canolfan Brynberian – Llythy am Cais ariannol ar gyfer yr Eisteddfod Blynyddol – cyn trafod fe wnaeth Lon Davies datgan diddordeb yn y mater. Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Ieuan Davies cyfraniad o £100.00

106. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio M a MV Rees, Temple Gate, Pontyglasier – Cais ar gyfer dymchwel adeilad amaethyddol presennol a throsi ac ymestyn beudy ar gyfer 2 bwthyn gwyliau – Roedd pawb yn cefnogi'r cais.

107. Cyngor am pobeth – Llythyr ar gyfer cymorth ariannol – Ar ol drafod cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John I peidio cyfrannu eleni.

108. Un llais Cymru Aelodaeth blynyddol £103 y flwyddyn – Ar ol trafod cynigodd Enid Cole ac eiliodd Lon Davies I peidio ymaelodi eleni.

Unrhyw Fater Arall

109. Cyngor Cymuned Eglwyswrw Asesiad risg – Dosbarthwyd yr asesiad I pawb. Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Arwel Evans I dderbyn yr asesiad risg 2018/2019.

110. Gwybodaeth Diogelu data – Fe fyddwn yn trafod hwn yn y cyfarfod nesaf ac yn penderfynnu ar swyddog.

111. Cruse Gofal Mewn Galar – Llythyr yn gofyn am gymorth ariannol – Ar ol trafod cynigodd Lon Davies ac eiliodd Enid Cole cyfraniad o £100.00

112. Paul Sartori – Llythyr yn gofyn am gymorth arian ar ol trafod cynigodd Lon Davies ac eiliodd Ceirwyn John cyfraniad o £100.00

113. Fe gododd Arwel Evans ynglyn a tyllau yn y rhewl tu allan I Pontcynnon ac hefyd ynglyn a Kerb stones yn rhydd tu allan I Neuadd Ffynnongroes. Helen I gysylltu a Cyngor Sir Benfro.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 3ydd o Ebrill am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.50y.h.